

Pwy sy'n magu'r babi? (atebion)

Dysgu hwyaden fach i nofio

Yr hwyaden sy'n gwneud hyn (y fam/hwyaden fenyw).

Ffonio'r milfeddyg os yw anifail yn sâl neu wedi'i anafu

Ni all anifeiliaid wneud hyn ac felly rhaid i'r ffermwr ei wneud.

Rhoi dŵr ffres allan bob dydd

Gwaith y ffermwr yw hyn.

Bwydo oen bach

Gallai hwn fod yn y ddau ddsbarth. Fel rheol, bydd y ddafad (mamog/dafad fenyw/mam) yn gwneud hyn, ond os bydd y fam wedi marw neu wedi gwrthod yr oen bach, efallai y bydd angen i'r ffermwr ei fwydo o botel.

Golchi llo bach newydd ei eni

Y fuwch sy'n gwneud hyn (mam/benyw).

Amddiffyn oen rhag llwynogod

Mae'r ffermwr a'r ddafad (mamog/dafad fenyw) yn gwneud hyn. Gall dafad gadw ei hoen yn agos ati i geisio ei amddiffyn rhag llwynogod, ond mae gwaith pwysig i'r ffermwr ei wneud hefyd - cadw ffensys cryf o gwmpas y defaid a'r wŷn a/neu ddiogelu adeiladau lle mae defaid ac wŷn yn byw.

Dangos i gyw sut i gadw'i blu'n lân

Yr iâr sy'n gwneud hyn (mam/benyw).

Gwneud yn siŵr bod anifail yn gallu cael diod ar ddiwrnod oer trwy dorri'r iâ yn y cafn dŵr

Ni all anifeiliaid wneud hyn ac felly rhaid i'r ffermwr ei wneud.

Gwneud yn siŵr bod digon o wellt i'r perchyll orwedd arno a chadw'n gynnes

Ni all anifeiliaid wneud hyn ac felly rhaid i'r ffermwr ei wneud.